**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Penawdau**
**Ymchwiliad i Newyddiaduriaeth Newyddion yng Nghymru**

---

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r argymhellion yn yr adroddiad.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol fod cefnogi newyddiaduraeth sydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol ac yn hollbwysig i ddemocratiaeth yng Nghymru.

**Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers tro bod sector cyfryngau bywiog yn elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern. Fel gwlad gyda'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cadarn ac annibynnol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, addysgu ac ysbrydoli pobl Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 2**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru feithrin ac annog y sector hyperleol fel ffordd o annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a chefnogi dulliau arloesol o ddarparu newyddiaduraeth newyddion lleol.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i ddarparu £100,000 yn 2018-19 a £100,000 yn 2019-20 i gefnogi newyddiadurwyr sy'n dymuno dechrau eu busnes eu hunain ym maes newyddion hyperleol. Mae hyn yn ychwanegol at y gefnogaeth bresennol sydd ar gael drwy Busnes Cymru.

Pan ymddangosodd Ysgrifennydd Cabinet gerbron y Pwyllgor ym mis Hydref 2017, dywedodd ei fod yn awyddus i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i gefnogi datblygu sgiliau mewn newyddiaduriaeth hyperleol, er mwyn cynyddu'r gyfran o newyddiadurwyr sy'n gymwys ac sy'n defnyddio ffynonellau newyddion dibynadwy yn sail i'w gwaith. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn a bydd yn hwb sylweddol i'r diwydiant.

**Goblygiadau Ariannol** – Cytunwyd eisoes ar gyllid ychwanegol.

**Argymhelliad 3**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid o £100,000 yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer cynllun cystadleuol sydd ar gael i newydd-ddyfodiaid ac i gefnogi arloesedd a chynaliadwyedd ymysg gweithredwyr cyfredol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol i sefydlu lle byddai'r cyllid ar gyfer newyddiaduriaeth hyperleol yn cael yr effaith fwyaf ac yn darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf.  Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar faint a nodweddion presennol y sector newyddiaduriaeth hyperleol; meysydd o fethiant yn y farchnad a rhwystrau rhag sefydlu busnesau newyddiaduriaeth hyperleol; cefnogi'r hyn sydd ar gael yn awr e.e. hyfforddiant a chefnogaeth sefydliadol arall; cyfleoedd eraill i gynyddu proffesiynoldeb a chynaliadwyedd; a'r achos dros ddarparu cyllid i fusnesau newyddiaduriaeth hyperleol presennol yn ogystal â busnesau newydd.

**Goblygiadau Ariannol** – Cytunwyd eisoes ar gyllid ychwanegol.

**Argymhelliad 4**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu hybiau newyddion hyd braich a ariennir gan ddefnyddio arian cyhoeddus, yng ngoleuni diffyg hyfywedd marchnad darpariaeth newyddion lleol mewn sawl rhan o Gymru.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod cael lluosogrwydd newyddion o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hollbwysig, ond mae'n rhaid i gynigion i ehangu a gwella sector newyddion cadarn ac annibynnol ddod o'r diwydiant ei hun.  Byddwn yn trafod hyn ymhellach drwy ein trafodaethau arferol gyda darparwyr newyddion ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 5**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad llawn o lwyddiant y £100,000 o gyllid unwaith y bydd y flwyddyn gyntaf o gyllid yn dod i ben i lywio penderfyniadau ynghylch sut y dylid defnyddio'r arian yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o saernïaeth y prosiect, cytunir ar feini prawf gwerthuso er mwyn gallu monitro allbynnau a chanlyniadau tymor byr ar ddiwedd y ddau gyfnod cyllido h.y. 2018/19 a 2019/20.

Bydd y gwerthusiad yn monitro yn erbyn yr amcanion a nodir yn y fanyleb Newyddiaduriaeth Hyperleol a daw gwybodaeth ychwanegol i law o ganlyniad i'r gwaith ymchwil a wneir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Telir unrhyw gostau o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'i gwariant ar hysbysebu hysbysiadau statudol, o'r swm sy'n cael ei wario gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac o'r swm sy'n cael ei wario gan lywodraeth leol. Yna dylai ymgynghori'n eang ynghylch a oes ffyrdd mwy cost effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau statudol a sut y gellir ail-fuddsoddi unrhyw arbedion a ryddheir i gefnogi newyddiaduraeth newyddion er budd y cyhoedd.

**Argymhelliad 8**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid defnyddio rhan o unrhyw gyllid a ryddheir trwy foderneiddio'r broses o gyhoeddi hysbysiadau statudol i greu corff tebyg i'r Knight Foundation yn yr Unol Daleithiau, sy'n cynnig cyllid cychwynnol ar gyfer sefydliadau newyddion bach newydd sbon.

**Argymhelliad 9**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n ddi-oed i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o fewn ei chymhwysedd er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein ac i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad yn y dyfodol yn gweithredu'r newidiadau hyn lle bo'n briodol. Dylai unrhyw arbedion a wneir o ganlyniad i gostau hysbysebu is yn sgil cynnydd mewn cystadleuaeth gael eu hailgyfeirio trwy gyllid wedi'i dargedu tuag at newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

**Argymhelliad 10**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol a chyrff statudol perthnasol eraill yng Nghymru bod ganddynt y rhyddid i gyhoeddi hysbysiadau statudol ar-lein, lle mae deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu hyn.

**Ymateb ar y Cyd i 6, 8, 9, a 10: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymarferoldeb cynnal archwiliad o'i gwariant ar hysbysebu hysbysiadau statudol. Mater i gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â llywodraeth leol, yw ystyried a ddylent wneud hynny hefyd. Pe byddai archwiliad o wariant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal, byddem yn rhannu unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu gyda cyrff cyhoeddus a llywodraeth leol ledled Cymru, ac yn eu hannog i ystyried a fyddai talu am archwiliad o'u gwariant eu hunain yn y maes hwn yna'n briodol.

Dylem gofio, fodd bynnag, bod gwrthddywediad sylfaenol yn ganolog i'r argymhellion hyn; sef, os bydd y sector cyhoeddus yn diddymu'r rhan fwyaf o'i hysbysebu o bapurau newydd lleol, gallai wanhau diwydiant sydd eisoes yn fregus mewn sawl maes, a gallai hyn *leihau* mynediad at newyddion lleol. Yn ogystal, nid yw'n eglur sut y gallem sicrhau bod yr arbedion sy'n cael eu creu gan sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru yn cael eu clustnodi i'w hailfuddsoddi mewn gwasanaethau newyddiaduriaeth newyddion – boed hyn yn cael ei wneud drwy sefydliad newydd, drwy dargedu cyllid neu drwy ddulliau eraill. Mae ymgynghoriadau blaenorol hefyd wedi tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â newid o'r fath.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion 8 a 9 yn ehangach – gan ystyried yr amodau a amlinellir uchod ac unrhyw benderfyniadau Gweinidogol yn y dyfodol allai fod eu hangen.

Mewn perthynas ag argymhelliad 10, mae eisoes ddealltwriaeth dda o'r rhwymedigaethau presennol a'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau statudol. Byddwn yn sicrhau, drwy ein trafodaethau arferol gyda llywodraeth leol a chyrff eraill y sector cyhoeddus, bod hyn yn parhau i fod yn wir – a'u bod yn tynnu sylw at unrhyw broblemau fydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn caniatâu iddynt gyhoeddi hysbysiadau statudol yn y dull mwyaf effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 7**. Rydym yn argymell bod Google a Facebook yn ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru

**Ymateb:** Nid argymhelliad i Lywodraeth Cymru y hwn.

Mater i'r ddau sefydliad eu hystyried yw hwn, ond bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhannu argymhelliad y Pwyllgor gyda Google a Facebook ac yn gofyn am eu hymateb.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 11**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso cysylltiad rhwng cynrychiolwyr y sector hyperleol, Media Wales a darparwyr newyddion mawr eraill i ymchwilio i feysydd lle gallent gydweithio a llunio cytundebau syndicâd.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Byddwn, drwy ein deialog arferol gyda darparwyr newyddion o bob maint ar hyd a lled Cymru, yn eu hannog i ymchwilio i unrhyw feysydd pellach o gydweithrediad, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i gytundebau syndicâd. Mae cydweithrediad a rhannu adnoddau eisoes yn digwydd (e.e. Gwasanaeth Gohebydd Democratiaeth Leol y BBC, lle mae'r BBC yn ariannu gohebwyr sy'n cael eu cyflogi gan sefydliadau eraill, o orsafoedd radio i gwmnïau cyfryngau ar-lein a grwpiau papurau newydd rhanbarthol sefydledig), ond mae hefyd yn briodol profi effeithiolrwydd mesurau o'r fath a chwilio am feysydd eraill lle gellid cyflawni gwerth ychwanegol drwy gydweithio.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei benderfyniad i beidio â sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol.

**Ymateb: Gwrthod**

Nid oedd sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol yn ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a

Thwristiaeth wedi'i ddarbwyllo y byddai creu fforwm neu grŵp arall yn creu budd ychwanegol. Ein nod ni yw symleiddio'r ffordd o weithio ar draws y portffolio hwn a gwneud hynny'n gyson, yn unol â'r broses ddiweddar o ddirwyn nifer o baneli cynghori Economi a Thrafnidiaeth i ben. Yn hytrach, rydym yn parhau i atgyfnerthu'r cysylltiadau cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol. Mae'r Gweinidog a swyddogion yn cwrdd ag unigolion a grwpiau sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau portffolio ac mae'n derbyn cyngor ganddynt yn unol â hynny.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

**Argymhelliad 13**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai fel rhan o rôl fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn.

Gallai gallu rhanddeiliaid yng Nghymru i ddylanwadu ar gynaliadwyedd newyddiaduriaeth newyddion yng Nghymru fod yn gyfyngedig, yn ôl maint a chyrhaeddiad gwasanaethau newyddion perthnasol a pherchnogaeth, llywodraethiant a threfniadau rheoleiddiol sefydliadau newyddion presennol a newydd a dosbarthiad llwyfannau. Felly, gallai camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol alw am gydweithrediad ar lefel y DU.

Byddwn yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater hwn ac a yw'n ymarferol gwneud hyn ar gyfer Cymru yn unig, ynteu a oes angen ymchwiliad cydweithredol ehangach ar lefel y DU. Byddai angen cytundeb llywodraethau a rhanddeiliaid eraill ar draws y DU ar gyfer hyn; gyda hyn mewn golwg, nid yw'n bosibl pennu amserlen gadarn ar gyfer cadarnhau neu gwblhau'r gwaith hwn ar y cam hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar y cam hwn.

**Argymhelliad 14**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, naill ai drwy sefydlu fforwm annibynnol neu'n uniongyrchol ei hun, yn adolygu Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol y BBC.

**Ymateb: Gwrthod**

Mater i'r BBC a'i sefydliadau partner yw adolygu Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol y BBC. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i gynnal briff gwylio ac yn cydgysylltu â'r BBC, darlledwyr eraill ac Ofcom fel y bo'n briodol, mewn perthynas â pherfformiad y BBC a darlledwyr eraill wrth iddynt gyflenwi a chefnogi darpariaeth newyddion effeithiol yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 15**. Rydym yn argymell bod y BBC yn adolygu'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol ar ôl iddo fod yn weithredol am 6 mis. Dylai'r adolygiad ystyried yn llawn modelau amgen ar gyfer y gwasanaeth, gan gynnwys y "gwasanaeth gwifren" rydym wedi ei argymell yn flaenorol a hybiau newyddion. Dylai hefyd archwilio pryderon y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau lletya i ddisodli'r ddarpariaeth bresennol, yn hytrach na darparu cynnwys ychwanegol. Dylid cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn.

**Ymateb: Nid argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru yw hwn**

Mater i'r BBC yw adolygu'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol a phenderfynu ar yr amserlen fwyaf priodol i wneud hynny. Wedi dweud hynny, rydym yn cytuno y dylid profi effeithiolrwydd y gwasanaeth ac y dylai'r BBC geisio gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 16**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fuddsoddiad parhaus mewn newyddiaduraeth Gymraeg ar y lefel bresennol o leiaf.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i newyddiaduriaeth iaith Gymraeg yn cael ei darparu yn awr drwy Gyngor Llyfrau Cymru ac Isadran y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae lluosogrwydd a'r gallu i ddewis rhwng sianelau cyfryngau Cymraeg yn beth da i siaradwyr Cymraeg. Yna bydd angen i ni ystyried a ddylid darparu cefnogaeth bellach i newyddiaduriaeth Gymraeg yn erbyn blaenoriaethau cyllido cystadleuol eraill.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar y cam hwn.

**Argymhelliad 17**. Rydym yn argymell bod Cyngor Llyfrau Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu hyb newyddion Cymraeg hygyrch lle gall cyhoeddiadau Cymraeg nad ydynt yn perthyn i'r BBC ac sy'n cael eu cefnogi gan Gyngor Llyfrau Cymru gyhoeddi eu cynnwys.

**Ymateb: Nid argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru yw hwn**

Oherwydd mai mater i Gyngor Llyfrau Cymru yw hwn, rydym wedi gofyn i'r Cyngor ystyried yr argymhelliad hwn a sut y gellid ei weithredu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar y cam hwn. Telir unrhyw gostau o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 18**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn ei hannog i ailedrych ar y sector cyfryngau lleol yn ei gyfanrwydd yng ngoleuni methiant y cynllun teledu lleol i gynnig ateb hirdymor i'r diffyg lluosogrwydd a phrinder newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y maes hwn.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn.

Rydym yn cytuno nad yw'r fenter hon wedi'i chyflawni yn unol â bwriad Llywodraeth y DU ac nad yw teledu lleol wedi cael effaith sylweddol ar yr heriau a wynebir gan Gymru o ran diffyg lluosogrwydd a newyddiaduriaeth er budd y cyhoedd.

Yn unol ag argymhelliad 13, mae'n bosibl mai cyfyngedig yw gallu rhanddeiliaid yng Nghymru i ysgogi a datblygu sector cyfryngau cynaliadwy yng Nghymru, yn ôl maint a chyrhaeddiad y gwasanaethau dan sylw a pherchnogaeth, llywodraethiant a threfniadau rheoleiddio darparwyr cyfryngau lleol presennol a newydd a llwyfannau dosbarthu. Felly, mae'n briodol ymgysylltu â Llywodraeth y DU (a gweinyddiaethau datganoledig eraill) i drafod a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol ar lefel y DU ac yn genedlaethol. Efallai y bydd angen cais gan Ofcom am ddadansoddiad pellach o'r gwersi a ddysgwyd drwy gyflwyno teledu lleol hefyd – gallai fod yn briodol gwneud hyn ar lefel y DU.

Yn yr un modd ag ar gyfer argymhelliad 13, byddwn yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater hwn a byddwn yn trafod gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill a fyddai'n well cael un darn o waith sy'n cwmpasu'r DU gyfan (gydag ystyriaeth briodol o'r materion ym mhob gwlad) ynteu a oes angen asesiadau ar wahân, ar gyfer y gwledydd unigol. Gam y bydd hyn yn gofyn am gytundeb llywodraethau a rhanddeiliaid eraill ar draws y DU, nid yw'n bosibl pennu amserlen gadarn ar gyfer cadarnhau neu gwblhau'r gwaith ar y cam hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar y cam hwn.